**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

**REPORT TO:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR ARCHWILIO**

**SUBJECT:** **PWYLLGOR ARCHWILIO - DYDD MAWRTH, 17 TACHWEDD 2020 DYDD MAWRTH, 17 TACHWEDD 2020**

**REPORT OF:**

---

PRESENT:

Councillors S. Healy (Is-gadeirydd)
D. Davies
J. Hill
W. Hodgins
J. Holt
K. Rowson
B. Summers
S. Thomas
H. Trollope
L. Winnett

WITH:

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd M. Cross. | |
| No. 3 | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddwyd y datganiadau o fuddiant dilynol:<br><br>Cynghorydd B. Summers – Eitem 6 Datganiad Cyfrifon 2016/17, 2017/18 a 2018/19<br>Cynghorydd J. Hill – Eitem 6 Datganiad Cyfrifon 2016/17, 2017/18 a 2018/19<br>Eitem 7 Archwiliad Allanol Datganiad Cyfrifon 2016/17 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>Eitem 8 Archwiliad Allanol Datganiad Cyfrifon 2017/18 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>Eitem 9 Archwiliad Allanol Datganiad Cyfrifon 2018/19 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | |
| **No. 4** | **PWYLLGOR ARCHWILIO**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 29 Medi 2020.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **DALEN WEITHREDU**<br><br>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 29 Medi 2020, yn cynnwys:-<br><br>*Dadgomisiynu'r Ganolfan Adnoddau Busnes*<br><br>Ymddiheurodd y Rheolwr Gyfarwyddwr wrth Aelodau am yr oedi wrth i'r mater ddod yn ôl i'r Pwyllgor, oedd oherwydd meysydd eraill o waith fel canlyniad i'r pandemig. Fodd bynnag, sicrhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y cyflwynir adroddiad i'r cyfarfod nesaf i amlinellu gwersi a ddysgwyd o adroddiad y Ganolfan Adnoddau Busnes a sut i ymwneud â dadgomisiynu adeiladau yn y dyfodol.<br><br>O ran y cwestiwn a godwyd yn y cyfarfod blaenorol am y cais cynllunio, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol y cymeradwywyd cais am newid defnydd ac y cafodd y safle ei werthu i Dragon Recycling a'u bod yn ailwampio'r safle ar hyn o bryd i ddechrau eu gweithgareddau ailgylchu.<br><br>PENDERFYNWYD, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r Ddalen Weithredu. | |
| **No. 6** | **DATGANIAD CYFRIFON 2016/17, 2017/18 & 2018/19**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau. | |

Cyflwynodd y Prif Swyddog Adnoddau yr adroddiad a dywedodd fod eitemau 6, 7, 8 a 9 ar yr agenda yn cyfeirio at gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2016/17, 2017/18 a 2018/19. Mae eitem 6 yn rhoi adroddiad ar ddatganiad cyfrifon y Cyngor ar gyfer pob un o'r tair blynedd, gydag eitemau 7, 8 a 9 yn adroddiadau Archwilio Cymru, sy'n cynnwys eu barn ar bob set o gyfrifon. Awgrymodd y Prif Swyddog Adnoddau y dylid ystyried eitemau rhif 6, 7, 8 a 9 ar yr agenda gyda'i gilydd.

Dywedodd y byddai Aelodau yn cofio i Archwilio Cymru dderbyn gohebiaeth yn ystod mis Medi 2017 yn codi pryderon am berthynas y Cyngor gyda Silent Valley Waste Services. Cynhaliwyd ymchwiliad Archwilio Cymru ac fel canlyniad mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi methu rhoi barn ar gyfrifon y Cyngor am y tair blynedd y cyfeirir atynt. Er bod Archwilio Cymru yn parhau i archwilio nifer o faterion yn ymwneud â pherthynas hanesyddol y Cyngor gyda Silent Valley, y bwriadant adrodd arni maes o law, nid ydynt yn awr yn ystyried fod dim o'r materion parhaus yn berthnasol i farn yr Archwilydd Cyffredinol ar Ddatganiadau Ariannol y Cyngor. Felly rhoddwyd barn archwilio a chyflwynwyd y Datganiad Cyfrifon am y tair blynedd (2016/17, 2017/18 a 2018/19) i'r Pwyllgor ar gyfer cymeradwyaeth.

Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi ystyried y cyfraniadau pensiwn a dalwyd ar ran y Prif Swyddog Cyllid a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Amgylchedd ac Adfywio ar gyfer 2016/17 a 2017/18 am eu rolau fel Cyfarwyddwyr Silent Valley Waste Services yn groes i'r gyfraith, ac ystyriai y dylai'r Cyngor fod wedi datgelu natur ac effaith y cyfraniadau pensiwn ychwanegol ond wedi methu gwneud hynny. Rhoddir manylion pellach am y farn hon yn adroddiadau Archwilio Cymru yn eitemau 7 ac 8, ac esboniodd er bod gwerth y trafodiadau a ddynodwyd yn y Cyfrifon yn gymharol fach, gallai'r asesiad o berthnasedd hefyd gael ei effeithio gan faterion ansawdd neilltuol, megis gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol yn ogystal â sensitifrwydd gwleidyddol. Roedd hyn yn wir am Nodyn Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Swyddogion yn cael ei ystyried o sylwedd i'w natur yn hytrach na'u gwerth, ac fel canlyniad gweithredwyd lefel sylwedd o £1. Oherwydd y lefel isel yma o sylwedd, mae Archwilio Cymru yn disgwyl i'r lefel yma o ddatgeliad fod yn gywir gan ei fod yn cyhoeddi cydnabyddiaeth ariannol unigolion ac yn gwneud yr wybodaeth ar gael i'r cyhoedd. Fel canlyniad i hyn, mae'n fwriad gan yr Archwilydd Cyffredinol i gyhoeddi barn wedi ei haddasu neu

gydag amodau ar ddatganiadau ariannol ar gyfer 2016/17 a 2018, ac barn 2018/19 yn ddiamod.

Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod y Cyngor wedi gofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol ar y mater hwn, ac er y derbyniwyd bod camgymeriadau gweithdrefnol yn y ffordd y cafodd cyfraniadau pensiwn cyflogwr eu gweinyddu, ystyrid nad oedd ganddynt yr effaith o wneud y taliadau yn rhai croes i'r gyfraith.

Yn ychwanegol at y mater uchod, mae adroddiadau Archwilio Cymru hefyd yn tynnu sylw at y camddatganiadau wedi eu cywiro a heb eu cywiro a ddynodwyd fel rhan o'r archwiliad cyfrifon. Cafodd y camddatganiadau eu cywiro ar gyfer 2016/17 a 2017/18 o fewn y Datganiadau Cyfrifon perthnasol. Mae nifer fach o gamddatganiadau sy'n parhau heb eu cywiro ar gyfer 2018/19. Roedd pob camddatganiad wedi eu hystyried yn flaenorol gan y Pwyllgor Archwilio a gytunodd gydag argymhelliad y Swyddog i beidio diwygio'r camddatganiadau a ddynodwyd yn 2018/19 ar y sail na fyddent yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau cyfrifeg.

Er bod barn gydag amodau ar y cyfrifon ar gyfer 2016/17 a 2017/18 yn siomedig roedd y Swyddog yn falch fod yr Archwilydd Cyffredinol bellach mewn sefyllfa i roi barn sy'n cadarnhau, gydag eithrio'r taliadau cyfraniadau pensiwn hynny a nodwyd, bod datganiadau ariannol y Cyngor ar gyfer pob un o'r tair blwyddyn yn rhoi golwg wir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent fel y safai ar 31 Mawrth bob blwyddyn, ac iddynt gael eu paratoi'n gywir yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

Daeth y Prif Swyddog Adnoddau i ben drwy argymell bod y Pwyllgor Archwilio, ar ôl ystyriaeth ddyladwy, yn cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2016/17, 2017/18 a 2018/19 yn unol â'r opsiwn a ffafrir a amlinellir yn 3.1 yr adroddiad.

Dywedodd yr Aelod oherwydd bod Archwilio Cymru wedi atgyfeirio'r mater hwn at yr Heddlu, ac yna ei atgyfeirio'n ôl i Archwilio Cymru, bod angen i Aelodau fod yn glir os byddai'n addas cytuno ar y Datganiad Cyfrifon. Cyfeiriodd at fater cyfraniadau pensiwn a'r ffaith bod y Cyngor wedi gofyn am gyngor annibynnol, a gofynnodd pam na chafodd y cyngor cyfreithiol annibynnol ei roi i Aelodau o fewn yr adroddiad.

Mewn ymateb dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod y cyngor

cyfreithiol a gafwyd yn glir ac yn debyg mewn rhai agweddau i gyngor Archwilio Cymru, fodd bynnag mae gan y Cyngor wahanol farn ar ddehongliad y cyngor a roddwyd.

Gofynnodd yr Aelod os oedd y cyngor cyfreithiol annibynnol yn groes i gyngor Archwilio Cymru yng nghyswllt aelodau staff yn derbyn cyfraniadau pensiwn gan yr Awdurdod tra'n cynrychioli cyrff allanol.

Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod y cyngor annibynnol a gafwyd yn dweud, er y dylai'r taliad yng nghyswllt cyfarwyddwyr Silent Valley fod wedi ei drin fel pot pensiwn ar wahân, nad oedd o reidrwydd yn gwneud y taliadau yn anghyfreithlon.

Cyfeiriodd yr Aelod wedyn at eitem rhif 7 a'r cyfraniadau pensiwn yn gyfanswm o £4,975 a gofynnodd os mai dyma oedd cyfanswm y gost dros nifer o flynyddoedd neu'r costau ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17.

Mewn ymateb dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau bod adroddiad Archwilio Cymru yn cyfeirio at flynyddoedd 2016/17 a 2017/18, felly y swm y cyfeirir ato oedd y cyfraniadau pensiwn a dalwyd ar gyfer y ddau unigolyn yn y blynyddoedd ariannol hynny.

Dywedodd yr Aelod, pan oedd yn darllen eitem 7, ei fod yn ddig iawn na ddaeth yr wybodaeth gerbron Aelodau ac yntau wedi bod yn Ddirprwy Arweinydd ac Arweinydd y Cyngor, ac mae hyn yn amlwg yn fater o fewn yr adroddiad, gan gofio y cafodd y mater ei adolygu ym mis Mawrth 2012, Tachwedd 2016 ac yn 2017, ac ar y sail hon roedd yn ei chael yn anodd cefnogi'r adroddiadau.

Gofynnodd Aelod os y gellid llofnodi'r adroddiadau yn absenoldeb. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau y byddai'r Is-gadeirydd mewn sefyllfa i lofnodi'r cyfrifon ar ran y Pwyllgor, fel cadeirydd y cyfarfod hwn.

Dywedodd yr Is-gadeirydd, pe bai'r Pwyllgor yn cytuno ar yr adroddiadau, y byddai'n barod i lofnodi ar ran y Cyngor.

Dywedodd Aelod arall ei fod yn bryderus na chafodd y cyfraniadau pensiwn eu dynodi'n flaenorol a gofynnodd am eglurder ar bwy oedd yn talu'r cyfaniadau pensiwn gan fod y cyfrifon a gofrestrwyd gyda Tŷ Cwmnïau ar gyfer Silent Valley Waste Services yn dangos eu bod yn talu cyfraniadau pensiwn. Cyfeiriodd hefyd at yr

amrywiadau sylweddol yng nghydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwyr dros y blynyddoedd, yn arbennig y cynnydd sylweddol yn 2017.

Esboniodd y Prif Swyddog Adnoddau y byddai cyfrifon Silent Valley Waste Services a gofrestrwyd gyda Tŷ'r Cwmnïau yn dangos eu bod wedi talu cyfraniadau pensiwn ar ran eu gweithwyr cyflogedig, a chadarnhaodd nad oeddent erioed wedi talu cyfraniadau yn yr LGPS yng nghyswllt y ddau unigolyn, gan eu bod yn cael eu talu gan y Cyngor.

Yng nghyswllt yr amrywiadau yng nghydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwyr, esboniodd swyddog Archwilio Cymru fod y cynnydd sylweddol yn y flwyddyn neilltuol honno (2017) oherwydd taliad terfynu i'r Rheolwr Gyfarwyddwr ar y pryd.

Gofynnodd Aelod am gostau cyngor cyfreithiol annibynnol a dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y byddai'n rhoi'r wybodaeth yma.

Gofynnodd Aelod arall pam fod y Cyngor wedi talu cyfraniadau pensiwn i'r ddau unigolyn am eu rôl ar gorff allanol ac am faint o flynyddoedd y bu hyn yn digwydd. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod hyn yn fater hanesyddol. Pan sefydlwyd Silent Valley Waste Services, cytunodd y Cyngor y byddai'r cyfarwyddwyr a enwebwyd i'r Bwrdd yn cael ychwanegiad at eu cyflog am ymgymryd â'r rôl honno ac ar y pryd hwnnw a gan ei fod yn cael ei ddosbarthu fel ychwanegiad i'r cyflog, yr oedd yn bensiynadwy. Newidiodd y trefniadau yn y cyfamser a daeth yn llai yn rhan o rôl unigolion o'r Cyngor a daeth yn gyflogaeth ar wahân a bryd hynny dylai'r Cyngor fod wedi trin y taliadau yn wahanol. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei wneud, ac er y derbyniwyd fod hyn yn gamgymeriad, ni ystyriwyd fod y taliadau yn anghyfreithlon.

Gofynnodd Aelod os gallai'r Cyngor adhawlio'r cyfraniadau pensiwn a dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau y gofynnwyd i Silent Valley Waste Services am ad-daliad am y taliadau a wnaed ond y gwrthodwyd hynny, gan ddweud bod yr unigolion yn weithwyr cyflogedig y Cyngor bryd hynny. Fe wnaethant ad-dalu ffi y cyfarwyddwyr i'r Cyngor ond dim y cyfraniadau pensiwn.

Dywedodd Swyddog Archwilio Cymru nad oedd Archwilio Cymru yn awgrymu y bu unrhyw dwyll. Roedd y problemau'n ymwneud â'r ffaith nad oedd y Cyngor, yn y gorffennol, wedi thoi trefniadau

| | | |
|---|---|---|
| | llywodraethiant digonol yn eu lle ar gyfer y berthynas rhyngddynt a Silent Valley, ac wedi methu diffinio'r rolau i'w cyflawni gan y swyddogion dan sylw neu benderfynu beth ddylai'r gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer y rôl fod a sefyllfa pensiynau.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol yn nhermau ad-hawlio unrhyw arian posibl sy'n ddyledus, na fyddai'n ddoeth ar hyn o bryd i roi sylwadau ar unrhyw weithredu cyfreithiol neu ad-daliad posibl yn y dyfodol. Fodd bynnag, rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio y byddai'r materion hyn yn cael eu hystyried.<br><br>Dywedodd Aelod fod Archwilio Cymru y gellid llofnodi'r cyfrifon. Dywedodd, fod hwn yn fater difrifol a rhoddodd sicrwydd y byddai'r ymchwiliad yn parhau ac y rhoddir adroddiad am y canlyniad i'r Pwyllgor Archwilio i Aelodau ei ystyried.<br><br>Yn nhermau'r ymchwiliad sy'n parhau, dywedodd Swyddog Archwilio Cymru ei bod yn debygol y byddai'r adroddiad yn cynnwys mwy o fanylion ar fater pensiynau a materion eraill, fodd bynnag ystyriwyd nad yw'r materion hyn yn effeithio ar farn yr Archwilydd Cyffredinol ar y datganiadau ariannol.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at annigonolrwydd y trefniadau llywodraethiant rhwng y Cyngor a Silent Valley dros gyfnod o flynyddoedd, a dywedodd ei bod yn bwysig nodi i'r adroddiadau blaenorol a ddaeth gerbron Aelodau gael eu hysgrifennu gan uwch swyddogion y Cyngor ac y byddai rhai o'r uwch swyddogion hynny wedi derbyn y cyfraniadau pensiwn, a bod Archwilio Cymru wedi dweud fod hyn yn anghyfreithlon. Er bod y Cyngor wedi cymryd cyngor i'r gwrthwyneb, dywedodd yr Aelod y credai na chafodd y ffaith hon ei hadrodd i Aelodau yn gwanhau rywfaint ar arwyddocâd y cyngor hwnnw. Dywedodd y byddai gan y cyhoedd ddiddordeb yn y mater hwn a hefyd yn debyg o gredu y byddai ychwanegiad at dâl wedi bod yn ddigonol ar gyfer y rôl, heb y taliad pensiwn ar ben hynny, ac i hyn gael ei wneud heb wybodaeth Aelodau etholedig. Ar sail y pryderon a amlinellwyd, roedd yn ei chael yn anodd cefnogi cymeradwyo'r cyfrifon. Gofynnodd pryd y gellid disgwyl adroddiad yng nghyswllt yr ymchwiliad parhaus gan Archwilio Cymru.<br><br>Dywedodd y swyddog Archwilio Cymru fod y gwaith archwilio yn agosáu at ei derfyn ac y lluniwyd y canfyddiadau a'r casgliadau darpariaethol. Yn yr achos cyntaf byddai'r rhannau perthnasol o'r | |

ddogfen yn cael eu cylchredeg i'r rhai oedd yn atebol o'i fewn i roi cyfle iddynt gywiro unrhyw wall ffeithiol i'r graddau yr oedd yn cyfeirio atynt hwy eu hunain neu eu gweithredoedd. Unwaith y gwnaed hynny ac yn dilyn unrhyw ddiwygiadau y gall fod eu hangen, anfonir y ddogfen i'r Cyngor fel drafft ymgynghori a byddai'r Cyngor yn cael cyfle i roi sylwadau arno ar y cam hwnnw. Rhagwelid y byddai hyn yn digwydd yn gynnar y flwyddyn nesaf.

Mewn ymateb  gofynnodd yr Aelod os y gallai'r adroddiad gynnwys llinell amser o'r digwyddiadau sylweddol h.y. pryd y cafodd y mater ei adrodd i'r Cyngor, a phryd y lansiwyd ymchwiliad yr Heddlu, gan y byddai'n fanteisiol i Aelodau gael yr wybodaeth hon pan fyddant yn ffurfio barn ar yr adroddiad.

Dywedodd Aelod ei fod yn cefnogi llofnodi'r cyfrifon yn amodol ar sicrwydd y byddai'r trefniadau llywodraethiant yn cael eu cryfhau o hyn ymlaen.

Mewn ymateb, atgoffodd y Rheolwr Gyfarwyddwr yr Aelodau y cynhaliwyd adolygiad o drefniadau llywodraethiant Silent Valley Waste Services ddiwedd 2017 ac y daeth trefniadau newydd i rym ddiwedd mis Mawrth 2018, felly'r rheswm pam nad oes amod ar gyfrifon y flwyddyn honno oherwydd bod yn rhaid cywiro rhai o'r materion a ddynodwyd ac wedi atal llofnodi cyfrifon y ddwy flynedd ddilynol. I gloi, dywedodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y cynhaliwyd adolygiad eisoes ac y cafodd trefniadau eu rhoi ar waith, a gobeithir y caiff hyn ei adlewyrchu gan Archwilio Cymru yn eu hadroddiad llawn y byddai'r Cyngor yn ei dderbyn maes o law.

Cadarnhaodd Swyddog Archwilio Cymru y bu newidiadau a gwelliannau sylweddol yn y trefniadau llywodraethiant ac y cafodd llawer o'r materion oedd yn debygol o gael eu hadrodd eu trin ac y byddid yn amlygu hyn yn ein hadroddiad.

Dilynodd trafodaeth pan fynegodd Aelod bryder nad oedd y Cyngor wedi gweithredu ar y cyngor a roddwyd gan Archwilio Cymru.

Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau nad oedd y Cyngor yn mynd yn erbyn cyngor Archwilio Cymru, roedd yn fwy o wahaniaeth barn yng nghyswllt y dyfarniad fod rhai o'r trafodiadau o fewn cyfrifon 2016/17 a 2017/18 yn anghyfreithlon.

Atebodd Swyddog Archwilio Cymru er fod gwahaniaeth barn ar

| | | |
|---|---|---|
| | fater cyfreithlondeb, nad oedd unrhyw wahaniaeth barn ar fater llywodraethiant a'r angen i wella, ac y rhoddwyd ystyriaeth i'r barnau hynny ac mae'r Cyngor wedi gweithredu.<br><br>Cyn i Aelodau wneud penderfyniad, dywedodd y Swyddog Archwilio Cymru y byddai'n rhoi adroddiad ffurfiol ar y canfyddiadau. Dywedodd mai'r peth cyntaf i'w nodi oedd mai barn yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer pob un o'r tair blynedd oedd bod y Cyfrifon yn adlewyrchiad gwir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor. Ar gyfer 2016/17 a 2017/18, heblaw am y taliadau pensiwn a'r gwaith sy'n mynd rhagddo, barn yr Archwilydd Cyffredinol oedd na fyddai'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn effeithio ar ei farn archwiliad. Fodd bynnag, byddai Tystysgrif Cwblhau'r Archwiliad yn parhau ar agor ar bob un o'r tair blynedd i ganiatáu i ni barhau'r gwaith y cyfeiriwyd ato, a rhoddodd sicrwydd i Aelodau y byddai adroddiad ar gael. Ar ôl i'r adroddiad gael ei gwblhau, dywedodd y byddid yn cyhoeddi'r Dystysgrif a byddai'r archwiliadau yn cael eu cau.<br><br>Daeth i ben drwy ddweud y rhoddwyd adroddiad eisoes i gyfarfodydd blaenorol o'r Pwyllgorau Archwilio ar gyfer 2016/17 a 2017/18 a theimlai ei bod yn bwysig dweud, er fod Archwilio Cymru wedi dweud fod y Cyngor wedi gweithredu tu allan i'r rheoliadau ac yn groes i'r gyfraith, nad oedd hyn i ddweud fod unrhyw beth anghyfreithlon wedi digwydd. Yng nghyswllt cyfrifon 2018/19, dywedodd fod hwn yn adroddiad safonol iawn gyda barn archwilio glir ac eto rhoddwyd adroddiad yn flaenorol ar hyn i'r Pwyllgor.<br><br>Cynigiodd Aelod, yng ngoleuni barn yr Archwilydd Gyffredinol a roddir yn Adran 2.6 yr adroddiad bod y datganiadau yn rhoi golwg wir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent ac y cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi'n briodol yn unol â Chod Ymarfer Cyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig, bod Opsiwn 1 yn cael ei gymeradwyo gydag ychwanegiad y derbynnir adroddiad pellach gan Archwilio Cymru maes o law.<br><br>Eiliwyd y cynnig.<br><br>Mewn pleidlais<br><br>PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon am flynyddoedd 2016/7, 2017/18 a 2018/19 gydag adroddiad pellach i'w dderbyn gan Archwilio Cymru yng ngoleuni barn yr Archwilydd Cyffredinol a amlygir yn Adran 2.6 yr adroddiad, bod y | |

| | | |
|---|---|---|
| | datganiadau yn rhoi golwg wir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent ac y cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi’n gywir yn unol â’r Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. | |
| **No. 7** | **<u>ARCHWILIAD ALLANOL DATGANIAD CYFRIFON 2016/17 – CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorydd J. Hill fuddiant yn yr eitem hon.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Archwilio Cymru.<br><br>PENDERFYNWYD nodi’r adroddiad. | |
| **No. 8** | **<u>ARCHWILIAD ALLANOL DATGANIAD CYFRIFON 2017/18 – CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorydd J. Hill fuddiant yn yr eitem hon.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Archwilio Cymru.<br><br>PENDERFYNWYD nodi’r adroddiad. | |
| **No. 9** | **<u>ARCHWILIAD ALLANOL DATGANIAD CYFRIFON 2018/19 – CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorydd J. Hill fuddiant yn yr eitem hon.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad Archwilio Cymru.<br><br>PENDERFYNWYD nodi’r adroddiad. | |
| **No. 10** | **<u>DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio a Risg y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar gyfer 2019/20 sy’n rhoi asesiad o effeithlonrwydd trefniadau llywodraethiant yr Awdurdod.<br><br>Siaradodd y Swyddog am yr adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo a mabwysiadu’r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol (Opsiwn 1). | |

| | | |
|---|---|---|
| **No. 11** | **<u>ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2019/2020</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol.<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Cydymffurfiaeth Cyfreithiol a Chorfforaethol yr adroddiad sy'n hysbysu Aelodau am berfformiad y Cyngor yng nghyswllt cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nododd y Pwyllgor Archwilio fod y broses yn gadarn ar gyfer monitro cwynion a bod yr wybodaeth perfformiad yn adlewyrchu'r arferion hynny (Opsiwn 1). | |
| **No. 12** | **<u>DIWEDDARIAD CYNLLUN GWEITHREDU SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol.<br><br>Cyflwynodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol yr adroddiad sy'n diweddaru Aelodau ar ffurfio'r grŵp Arweinwyr Diogelu Corfforaethol a'r datblygiadau yng nghyswllt argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru yn dilyn eu hadolygiad o'r trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant.<br><br>Casgliad adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru oedd mai cynnydd cyfyngedig a wnaeth y Cyngor wrth fynd i'r afael ag argymhellion a chynigion blaenorol ar gyfer gwella, ac nad oedd y trefniadau diogelu yn ddigon cyson i roi sicrwydd ar draws pob maes.<br><br>Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, fel canlyniad uniongyrchol i bandemig COVID 19, fod y Cynllun Gweithredu mewn ymateb i argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru i ganiatáu ar gyfer yr amserlenni i'r camau gweithredu gael eu hymestyn.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r amserlen ar gyfer Cynllun Gweithredu diwygiedig Swyddfa Archwilio Cymru (Opsiwn 1). | |
| **No. 13** | **<u>TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIAETH ARCHWILIO CYMRU AR GYFER ARCHWILIO ASESIAD PERFFORMIAD 2019-10 CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Llywodraethiant a Phartneriaethau.<br><br>Cyflwynodd y Prif Swyddog Dystysgrif Cydymffurfiaeth Archwilio Cymru yn | |

| | | |
|---|---|---|
| | dilyn yr archwiliad Asesiad Perfformiad 2019-10 y Cyngor.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor Archwilio yn nodi'r dystysgrif cydymffurfiaeth dyddiedig Hydref 2020. | |